Economic and Social Research Council

Children's Participation in Schools

ESRC Education Research Programme
Empowering educators

**Polisi a Deddfwriaeth Cymru: Dadansoddiad o hawliau cyfranogol plant ifanc mewn addysg**

Cylch gwaith yr ymchwil hon oedd dod i ddeall yn ddyfnach i ba raddau y mae hawliau cyfranogol plant ifanc yn cael eu hadlewyrchu mewn deddfwriaeth a pholisi addysg yng Nghymru.

***Diffiniad 'hawliau cyfranogol'***: *hawl plentyn i fod rhan o'r broses o wneud penderfyniadau ynglŷn â'u haddysg ac o fewn eu haddysg. Mae hyn yn seiliedig ar, ond heb fod yn gyfyngedig i, Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.*

Cliciwch yma i weld ein ffeithlun ddadansoddi polisi a deddfwriaeth

Cliciwch yma i weld y dogfennau sydd wedi'u cynnwys yn yr adolygiad a'r dadansoddiad

Roedd ymchwil wedi dadansoddi detholiad o ddeddfwriaethau, polisïau, adolygiadau a gwerthusiadau a oedd berthnasol i addysg plant ifanc yng Nghymru o 1999 i 2023.

Defnyddiom ddull dadansoddi polisi Cardno (2018) i archwilio'r dogfennau i weld a oedd cyfeiriadau at y canlynol yn bresennol neu'n absennol:

- Siarter y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac Erthygl 12
- cyfranogiad a hawliau cyfranogol
- llais y plentyn.

Ystyriom i ba raddau mae'r dogfennau yn cynnwys manylion pellach ynghylch hawliau cyfranogol plant, ac esboniadau ynglŷn â sut y gellir eu gweithredu mewn dosbarthiadau yng Nghymru. Yn dilyn yr adolygiad, defnyddiom Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Addysg Hawliau Dynol (2011) i astudio a oedd y dogfennau yn adlewyrchu addysg:

- ***'ynghylch'*** hawliau dynol – datblygu gwybodaeth a deallusrwydd.
- ***'ar gyfer'*** hawliau dynol – defnyddio addysgeg sy'n parchu hawliau.
- ***'drwy'*** hawliau dynol – addysg drawsnewidiol ar gyfer dinasyddiaeth weithgar.

**Canfyddiadau**

- Doedd nifer o ddarpariaethau deddfwriaethol ar ôl datganoli ddim yn cynnwys cyfeiriad penodol at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn nac at hawliau cyfranogol plant, ond mae eu heffaith fwriadedig yn llwyr gefnogol o weithredu hawliau cyfranogol plant.
- Er bod rhywfaint o ddeddfwriaeth Cymru yn cyflwyno gofynion i wybod am hawliau plant a rhoi sylw dyladwy iddynt, mae diffyg manylion ynghylch beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol.
- Nid oedd y mwyafrif o ddogfennau polisi a ddadansoddwyd yn cynnwys gwybodaeth 'ynghylch', 'drwy', ac 'ar gyfer' hawliau dynol.
- Roedd nifer fechan o bolisïau cyn y Cwricwlwm i Gymru (2021) yn adlewyrchu addysg 'ynghylch' neu 'drwy' hawliau dynol, ond y Cwricwlwm i Gymru (2021) oedd y polisi arwyddocaol cyntaf i adlewyrchu'n llawn addysg 'ynghylch', 'drwy' ac 'ar gyfer' hawliau dynol.
- Mae'r Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (2021) yn ymgorffori fframwaith y Cenhedloedd Unedig o Addysg Hawliau Dynol fel thema drawstoriadol ar gyfer datblygiad y cwricwlwm yng Nghymru, ac yn adlewyrchu ymrwymiad cryf i hawliau cyfranogol plant.

**Argymhellion**

Er mwyn cefnogi hawliau cyfranogol plant ifanc yn well mewn polisi yng Nghymru, argymhellwn y canlynol:

1) **Dylai polisi addysg y dyfodol yng Nghymru barhau i ystyried hawliau cyfranogol plant.** Mae angen dadansoddi gweithrediad hawliau cyfranogol plant mewn ysgolion yn feirniadol ac yn barhaus er mwyn cynnal yr ymrwymiad hwn.
2) **Dylai plant gael eu cydnabod fel deiliaid hawliau gweithredol yn y presennol, ym mhob deddf a pholisi yng Nghymru yn y dyfodol.** Dylai pob plentyn, gan gynnwys plant ifanc ac sydd wedi'u hymyleiddio, gael eu hystyried yn gymwys i fynegi eu dymuniadau a'u teimladau bod ganddynt y gallu i wneud hynny. Gellir eu cefnogi i gymryd rhan o'r broses gwneud penderfyniadau ym mhob rhan o'u bywydau.
3) **Dylai polisi addysg ystyried yr elfen 'sut' mewn hawliau cyfranogol plant.** Mae angen arweiniad ymarferol i gefnogi athrawon, arweinwyr ysgolion ac addysgwyr athrawon yn eu cyfrifoldebau o ran gweithredu addysg ynghylch, trwy ac ar gyfer hawliau dynol ar draws y cwricwlwm.